**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1166/23

Llyr Gruffydd AS
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

28 Mehefin 2023

Annwyl Llyr,

Tynnwyd fy sylw at y ffaith bod anghysondeb ar hyn o bryd rhwng y Memorandwm Esboniadol a'r darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) sy'n ymwneud â rheoli mwg.

Mae'r Bil yn cyflwyno cosbau ariannol sifil yn lle'r sancsiynau troseddol presennol ar gyfer gollwng mwg mewn ardal rheoli mwg. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud ein bod yn bwriadu cael gwared ar yr amddiffyniad statudol o ddefnyddio lle tân sydd wedi'i esemptio mewn ardal rheoli mwg. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cadw darpariaethau sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru esemptio rhai lleoedd tân rhag y sancsiynau sifil newydd am ollwng mwg mewn ardal rheoli mwg.

O dan system o gosbau sifil, dylai fod yn haws i'r awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi mewn perthynas â rheoli mwg, ond mae swyddogion hefyd wedi ystyried ffactorau eraill sy'n llesteirio camau gorfodi. Nid yw'r Bil bellach yn esemptio rhai mathau o danwydd rhag y gosb sifil, ond mae yn esemptio mathau penodol o offer. Yn y cyd-destun hwn, rwyf bellach o'r farn ei bod yn amhriodol cadw pŵer Gweinidogion Cymru i esemptio math o le tân rhag y drefn cosbau sifil.

Byddaf yn cynnig gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 er mwyn gwneud y sefyllfa'n fwy clir, a byddaf hefyd yn esbonio'r sail resymegol dros ddileu'r pŵer hwn. Yn gyffredinol, rwyf am sicrhau bod gennym y mecanweithiau priodol ar waith i alluogi awdurdodau lleol i orfodi sancsiynau sifil yn effeithiol pan fo angen. Byddaf yn rhannu copi o'r gwelliant maes o law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddi ac at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

cc. SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddCyllid@senedd.cymru